# IS-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy’n Bresennol:** | **Dydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2024** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.Sparks** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | S.Pursey, D.Howlett, M.John, M.Tierney, P.Black a/ac D.Cundy |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | K.Tillman, R.Brown, S.Jones, A.Thomas a/ac L.Willis |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2024 a 15 Chwefror 2024 fel cofnod gwir a chywir.

4. **CYNLLUN TRAFNIDIAETH RANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU - Y DIWEDDARAF AM Y RHAGLEN**

Rhoddodd swyddogion drosolwg o'r adroddiad fel a gynhwysir ym mhecyn yr agenda.

Cyfeiriodd yr Aelodau at dudalen 14 yr adroddiad a oedd yn nodi bod gan y gweithgor bryderon ynghylch cyllid a'r amserlen cwblhau

derfynol. Cyfeiriodd yr Aelodau at y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth, a oedd wedi'i gynnwys ym mhecyn yr agenda, a mynegwyd pryder y gellir cymryd arian o grantiau trafnidiaeth leol i ariannu'r polisïau trafnidiaeth ranbarthol; byddai hyn yn effeithio ar raglenni gwaith awdurdodau lleol. Holodd yr Aelodau a gyflwynwyd rhagor o sylwadau i Lywodraeth Cymru ar y mater hwn.

Cadarnhaodd swyddogion fod pryderon wedi cael eu codi gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â lefelau ariannu. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi tynnu sylw at y ffaith y bydd y cyllid a ddyrannwyd yn cael ei ddefnyddio tuag at y cynllun trafnidiaeth ranbarthol yn ogystal â datblygu'r cynllun datblygu strategol. Mae Cadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforaethol Rhanbarthol De-orllewin Cymru wedi ymateb i Lywodraeth Cymru yn egluro'r cyfyngiadau a wynebir o ganlyniad i'r gyllideb gyfyngedig. Bydd lefel y cyllid a gymeradwyir yn talu cost y gwaith ymgynghori ond nid datblygiad y cynllun strategol. Nodwyd bod y sefyllfa hon yn cael ei adlewyrchu mewn Cyd-bwyllgorau Corfforaethol eraill ledled Cymru.

Awgrymodd yr aelodau fod Cadeirydd y Cyd-bwyllgor yn cael ei gynghori bod aelodau'n rhannu'r pryderon hyn. Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu i swyddogion gadarnhau cefnogaeth y pwyllgor i Gadeirydd y Cyd-bwyllgor.

Nododd aelodau'r adroddiad.

## 5. Y DIWEDDARAF AM SAFONAU'R GYMRAEG

Darparodd swyddogion drosolwg i'r aelodau o'r adroddiad a gynhwyswyd ym mhecyn yr agenda.

Nododd aelodau'r adroddiad.

## 6. BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL 24/25 CYNLLUN CORFFORAETHOL 2023-2028

Darparodd swyddogion drosolwg gryno am yr adroddiad a gynhwysir ym mhecyn yr agenda.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y cynllun gweithredu a gynhwysir ym mhecyn yr agenda, a gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynghylch sut

mae'r Grŵp Cyfarwyddwyr Adfywio yn rhyngweithio â'r Cyd-bwyllgor. Nodwyd bod bylchau yn yr wybodaeth sydd ar gael ar gyfer rhai camau gweithredu.

Cadarnhaodd swyddogion fod pedwar is-bwyllgor wedi'u ffurfio mewn perthynas â'r amcanion lles i sicrhau bod llywodraethu, gwneud penderfyniadau, a gwybodaeth, syniadau ac awgrymiadau yn cael eu rhaeadru o ranbarthau i'r Cyd-bwyllgor ac i'r gwrthwyneb. Mae Cyfansoddiad y Cyd-bwyllgor yn nodi arweinwyr gweithredol ac arweinwyr gwleidyddol ar gyfer pob amcan lles, fel a ganlyn:

- Trafnidiaeth Ranbarthol – arweinydd gweithredol - Abertawe, arweinydd gwleidyddol - Sir Gaerfyrddin.
- Datblygu Economaidd a Llesiant Economaidd - arweinydd gweithredol - Sir Gaerfyrddin, arweinydd gwleidyddol - Abertawe.
- Ynni Rhanbarthol - arweinydd gweithredol – Castell-nedd Port Talbot, arweinydd gwleidyddol - Sir Benfro.
- Cynllunio Strategol - arweinydd gweithredol – Sir Benfro, arweinydd gwleidyddol – Castell-nedd Port Talbot.

Cyn ffurfio'r Cyd-bwyllgor, ffurfiwyd gweithgorau craidd a gweithgorau cyfarwyddwyr. Ym mhob awdurdod mae'r Cyfarwyddwyr sy'n arwain pob thema'n adrodd yn ôl i'r Bwrdd Rhaglen a'r grŵp llywio a ffurfiwyd o dan y Cyd-bwyllgor.

Mynegodd yr Aelodau bryder bod rhai diweddariadau o ran cynnydd yn cael eu gohirio i'r Grŵp Cyfarwyddwyr Adfywio Rhanbarthol, heb sylwadau; dylid nodi unrhyw gynnydd yn y ddogfen. Mae amwysedd ynghylch y grŵp sydd y tu allan i strwythur y Cyd-bwyllgor.

Dywedodd swyddogion y cynhaliwyd ymgynghoriadau ar y camau gweithredu, ac wrth symud ymlaen roeddent am ganolbwyntio ar gynyddu gweithgarwch a chynnwys rhanddeiliaid. Trefnwyd gweithdy ar gyfer mis Tachwedd i edrych ar y blaenoriaethau i weld a ydynt yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer 2025-2026, mae cyfleoedd i wella'n barhaus. Nid yw'r amcanion lles yn destun newid, ond mae angen adolygu'r camau gweithredu. Fel rhan o waith cyfranogiad ac ymgysylltu, mae angen sicrhau ymgysylltiad priodol, mae hyn yn cynnwys cymunedau yn ogystal â gweithgorau presennol a swyddogion ym mhob awdurdod.

Mynegodd yr Aelodau bryder mewn perthynas â lefel ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gwestiynu gwerth ymgynghoriad ag ymatebion cyfyngedig; mae lefel yr ymatebion ar draws y rhanbarth yn amrywiol.

Holodd yr Aelodau sut y gellir gwneud pobl yn ymwybodol o'r nodau. Nododd yr Aelodau fod sefydliad o'r enw '4TheRegion' wedi gwneud gwaith yn Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar a gofynnwyd pwy yr ymgysylltir â nhw i gynnal yr ymgynghoriad ar ran y pwyllgor.

Cadarnhaodd swyddogion fod y Cynllun Corfforaethol wedi cael ei gyhoeddi a'i hyrwyddo drwy wefan y Cyd-bwyllgor. Mae ymgynghoriad dilynol annibynnol ar yr amcanion a'r swyddogaethau lles. Mae'r ymgynghoriad yn fyw ac mae manylion pellach ar gael ar y we-dudalen. Mae cynrychiolaeth ar y gweithgorau gan swyddogion o bob awdurdod, Llywodraeth Cymru, a chyrff arbenigol eraill. Mae'r ymgynghoriad yn seiliedig ar ganfyddiadau a gafwyd o roi'r cynllun corfforaethol cychwynnol ar waith ac adeiladu ar adborth a thynnu sylw at gyfleoedd i wella. Mae pob awdurdod yn hyrwyddo'r ymgynghoriad ar eu sianeli cyfryngau cymdeithasol a'u gwefannau annibynnol eu hunain.

Cyfeiriodd yr aelodau at y cynllun sy'n dangos y rhwydwaith trafnidiaeth a'r parciau cenedlaethol ar dudalen 124 yr adroddiad a gofynnwyd pam na chafodd yr A477 i Ddoc Penfro ei nodi fel llwybr strategol.

Nid oedd swyddogion yn gallu ateb yn llawn ar hyn o bryd, ond cadarnhawyd, cyn i'r ddadl o blaid newid gael ei gymeradwyo, bod yr aelodau wedi codi pwysigrwydd sicrhau bod pob rhanbarth yn cael ei ystyried yn llawn, yn enwedig ardaloedd gwledig; cafodd hyn ei gynnwys o fewn cwmpas y ddogfen Dadl o Blaid Newid. Cadarnhaodd swyddogion y gallai fod yn fwy priodol trafod hyn ymhellach yn dilyn datblygu dogfen bolisi a chanfyddiadau'r ymgynghoriad sydd i'w cyflwyno i'r pwyllgor craffu a'r Cyd-bwyllgor ar ddechrau mis Medi.

Mynegodd yr Aelodau bryder bod y mater hwn wedi'i godi o'r blaen; byddai'n ddefnyddiol i aelodau gael sicrwydd bod yr adborth a roddir gan aelodau'n cael ei nodi.

Ymatebodd swyddogion, o ran y ddogfen, ei bod yn bwysig tynnu sylw at y ffaith nad yw cynnwys y cynllun corfforaethol wedi newid, mae newidiadau wedi digwydd o fewn yr atodiadau. Caiff barn yr aelodau ei chynnwys yn yr adborth a gesglir gan bob un o'r pwyllgorau, a'r hyn a gymeradwyir gan y Cyd-bwyllgor. Atgoffwyd yr aelodau fod gweithdy wedi'i gynllunio ar gyfer yr hydref; lle gellir ystyried y sefyllfa bresennol, a gellir rhoi blaenoriaethau a chamau gweithredu newydd ar waith ar gyfer 2025-2026.

Nododd aelodau'r adroddiad.

## 7. **BLAENRAGLEN WAITH 2024-2025**

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddewis eitemau i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith.

Penderfynodd yr Aelodau ar y Flaenraglen Waith ar gyfer y cyfarfod nesaf.

## 8. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**